# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 21AIN MAI, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol drwy Zoom**

***Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt


**Lowri Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 14 Mai 2025)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Mared Eastwood | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Diane King | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Dewi Jones | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Manon Williams | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Paul Smith | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Noel Fitzgerald | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwyr |
| Jennie Downes | Yr Eglwys yng Nghymru |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Aaron Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Louise Williams | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwern ap Rhisiart | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Euros Davies | GwE |
| Rhys Williams | GwE |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bethan Eleri Roberts | GwE |
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2025 - 2026

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025 - 2026

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD AR GYFER 2025 - 2026

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2025 - 2026

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION — 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19 Chwefror 2025 fel rhai cywir

## 7. CYFRIFON TERFYNOL GWE 2024/25 - ALLDRO REFENIW — 12 - 18

I nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am y flwyddyn 2024/25, sef sefyllfa o orwariant o £523,065, sydd i'w gyllido drwy gyfraniadau gan yr awdurdodau.

I gymeradwyo trosglwyddiadau ariannol o £221,310 o'r gronfa tanwariant, a £312,547 o'r gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) i leihau gorwariant GwE yn 2024/25.

I gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2024/25, fydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn. Fydd yn cael eu cynhyrchu, eu hardystio a'u cyhoeddi gan yr Adran Gyllid yr awdurdod lletya o fewn yr amserlen statudol.

## 8. DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER CYDBWYLLGOR GWE — 19 - 29

I dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25.

**9. CYFRIFON TERFYNOL GWE - DATGANIAD O'R CYFRIFON** 30 - 51

I dderbyn a nodi'r wybodaeth

**CYDBWYLLGOR GWE**

**19 Chwefror 2025**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Phil Wynn – Cadeirydd y cyfarfod hwn yn unig (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Diane King (Cyngor Sir Ddinbych), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint) a Dewi Jones (Cyngor Gwynedd)

**Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais**: Manon Williams Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd

**Swyddogion Heb Bleidlais:** Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) a Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam)

**Swyddogion GwE:** Rhys Williams (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Dysgu Proffesiynol), Euros Davies (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE)

**Swyddogion yr Awdurdod Lletyol:** Ffion Madog Evans (Swyddog Cyllid Statudol - Gwynedd), Hywyn Lewis Jones (Cyfrifydd Addysg ac Economi - Gwynedd), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd - Gwynedd), Sïon Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau - Gwynedd), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwynedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth - Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd) a Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd)

Llongyfarchwyd y Cyng Dewi Jones ar ei benodiad fel Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd a croesawyd ef i'r cyfarfod.

Diolchwyd i Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn) am ei gyfraniad a'i gefnogaeth i'r Cyd-bwyllgor dros y blynyddoedd a dymunwyd y gorau iddo yn ei swydd newydd.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB GwE 2024/25 – ADOLYGIAD HYD AT DDIWEDD IONAWR 2025**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn diweddaru aelodau ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb refeniw GwE am y flwyddyn gyllidol 2024/25 a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Eglurodd Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau (Cyngor Gwynedd), bod yr adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth diwedd Ionawr 2025 gyda'r darlun o ran costau diswyddo a chostau rhyddhau pensiwn yn gliriach.

Eglurwyd bod y costau diswyddo a chostau pensiwn yn seiliedig ar y rhai uchaf posib, felly yn rhoi y senario waethaf i'r Cydbwyllgor, fel bod modd gweld beth yw'r bwlch ariannol uchaf posib. Ategwyd mai'r gobaith yw na fydd y ffigyrau mor uchel ac y bydd modd cynnig swyddi i staff sydd tu allan i'r drefn TUPE, sef y rhai sy'n trosglwyddo i'r Awdurdodau Lleol (er nad oes modd rhoi unrhyw addewid o hynny).

Cyfeiriwyd at dalfyriad o'r sefyllfa derfynol gyda'r rhagolygon, yn dilyn adolygiad diwedd Ionawr 2025, yn awgrymu y bydd sefyllfa ariannol am 2024/25 yn orwariant o £919k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Tynnwyd sylw at y prif faterion;

- Gweithwyr – erbyn hyn yn dilyn ystyried costau diswyddo a chostau pensiwn, rhagwelir gorwariant o £1.1 miliwn ar y pennawd yma. Eglurwyd bod cyllideb GwE ar gyfer y flwyddyn gyfredol ei sefydlu yn seiliedig ar nifer y staff nôl yn Chwefror 2024. Amlygwyd bod arbediad wedi ei wireddu wedi i rai aelodau staff GwE adael eu swyddi, ynghyd â derbyniad grant sydd wedi cael ei ddefnyddio i gyllido swyddi. Nodwyd bod y ffigyrau hefyd wedi ymgorffori penderfyniad y Cydbwyllgor ar 1af Awst 2024, gan gynnwys ailstrwythuro o'r Uwch Dîm Reoli.

  Ategwyd, yn dilyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf bod yr adolygiad ariannol yn cynnwys amcan gyfrifiad o uchafswm cost diswyddo cyfredol o oddeutu £1.7m i staff na fydd yn trosglwyddo i'r awdurdodau. Disgwylir cyfraniad Llywodraeth Cymru o £738k (£123k sydd wedi ei dderbyn fesul awdurdod) tuag at y gost.

  Cyfeiriwyd at y rheoliadau Cyfrifeg sydd yn golygu bod angen cyfrifo am gostau pensiwn yn y flwyddyn ariannol lle mae llythyr wedi ei ryddhau i staff. Gyda bwriad i ryddhau llythyr i staff GwE ar ddechrau mis Mawrth rhaid oedd sicrhau ymrwymiad ariannol a'r costau hynny yn taro yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

- Rhent - gorwariant o bron i £90 mil. £10k ohono yn unol â'r tueddiad hanesyddol gan fod gofod mwy o faint wedi bod yn cael ei rentu yng Nghaernarfon, sydd wedi bod uwchlaw lefel y gyllideb. Yn ychwanegol i hyn, amlygwyd wrth ddirwyn GwE i ben bod costau terfynu prydlesi swyddfeydd sydd angen eu wynebu, yn bennaf ar gyfer swyddfa Yr Wyddgrug.
- Cludiant - y darlun yn parhau i fod yn gyson gydag adolygiadau blaenorol gyda thanwariant o £34 mil ar y pennawd cludiant, gan fod costau teithio wedi lleihau o ganlyniad i ffyrdd newydd o weithio dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cyflenwadau a Gwasanaethau - rhagwelir tanwariant o bron i £19 mil yma gan na fydd cyfraniad yn cael ei wneud i gronfa adnewyddu technoleg gwybodaeth.

Eglurwyd, yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol, bod angen cymryd i ystyriaeth fod y gronfa wrth gefn o £221k, yn cael ei defnyddio yn llawn i leihau'r gorwariant.

Tynnwyd sylw at Cronfa Athrawon Newydd Gymhwyso sydd wedi cronni, a sydd bellach yn £455k. Nodwyd bod yr arian yma wedi ei glustnodi ar gyfer defnydd penodol, a bod

cais eisoes wedi mynd at Lywodraeth Cymru i holi os byddai modd defnyddio’r gronfa yma fel cyfraniad tuag at y costau sydd yn cael eu wynebu. Er hynny, hyd nes bydd cadarnhad, ni ellid ei ddefnyddio i leihau’r costau ar y pwynt yma.

Wrth grynhoi’r sefyllfa, rhagwelwyd bod bwlch ariannol sydd yn uchafswm o £919k ac y bydd angen cau y bwlch yma. Ategwyd bod llythyr wedi ei yrru i Lywodraeth Cymru yn ceisio am arian ychwanegol, ond os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd yn rhaid i’r Cynghorau unigol ei gyllido.

Diolchwyd am yr adroddiad a diolchwyd i’r staff am gwblhau’r gwaith o fewn cyfnod anodd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Pryder am orwariant adeiladau – rhent (yn cynnwys gwasanaethau). Hwn yn orwariant sylweddol o ystyried defnydd digidol / rhithiol. A oes modd trafod / negodi telerau cau swyddfeydd Bae Colwyn a’r Wyddgrug?
- Bod angen craffu pob ceiniog
- Bod angen sicrwydd uchel o ddealltwriaeth
- Bod angen sicrwydd o’r gwariant – awgrym i’r dadansoddiad llawn am wariant terfynol 2024/25 gael ei drafod / herio yn y Bwrdd Trosiannol gydag adborth i gyfarfod nesaf o’r Bwrdd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a defnydd Cronfa Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) ac os oedd modd defnyddio’r gronfa yma i leihau’r gorwariant yn hytrach na gweld yr arian yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru, nodwyd bod arian y gronfa yma wedi cronni dros flynyddoedd covid a bod telerau defnydd y gronfa yn nodi defnydd penodol. Er hynny, amlygwyd bod llythyr wedi ei anfon at Llywodraeth Cymru yn gofyn caniatâd i ddefnyddio’r gronfa yn erbyn y gorwariant. Ategwyd bod llythyr wedi ei dderbyn yn ymateb i gais gan Cyngor Gwynedd am arian ychwanegol i lenwi’r bwlch ariannol yn gofyn am gyfarfod gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru i drafod y sefyllfa, ac y bydd defnydd Cronfa ANG yn debygol o gael ei gynnwys yn nhrafodaeth y cyfarfod hwnnw.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo’r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a chymeradwyo’r adroddiad ar adolygiad o gyllideb GwE hyd at ddiwedd Ionawr 2025.**
- **Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod o’r Bwrdd Trosiannol, bod adroddiad sefyllfa diwedd blwyddyn ynghyd â dadansoddiad llawn am wariant terfynol 2024/25 yn cael ei gyflwyno i’r Cydbwyllgor yng nghyfarfod mis Mai**

## 6. CYLLIDEB SYLFAENOL GwE 2025/2026

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn manylu ar gyllideb i GwE ar gyfer y ddau fis hyd at ddiwedd Mai 2025, a hynny yn dilyn llithriad yn amserlen terfynu GwE i 31 Mai 2025. Nodwyd, fel a wneir ar gyfer cyllidebau unrhyw flwyddyn, bod trefn arferol o gynyddu’r cyllidebau i gynnwys cyfraddau chwyddiant angenrheidiol ac ystyriaeth o’r setliad tâl ayyb wedi ei wneud. Yn dilyn hyn, adroddwyd bod gwerth 2 fis o gyllideb wedi ei ddarparu ar gyfer penawdau perthnasol gyda rhai eithriadau.

Tynnwyd sylw at y penawdau canlynol:

- Gweithwyr - costau staffio yn seiliedig ar nifer staff oedd yn gyflogedig ar y 1af o Chwefror 2025, felly 2 fis o gyllideb wedi ei ddarparu ar eu cyfer.
- Rhent, costau teithio, rhaglenni cenedlaethol / comisiynu - gwerth 2 fis o gyllideb wedi ei ddarparu
- Cyflenwadau a Gwasanaethau – nid oes cyllideb wedi ei gynnwys ar y pennawd Technoleg Gwybodaeth, gan mai cyfraniad i gronfa adnewyddu ydyw, felly am resymau amlwg, ni fydd cyllideb ar ei gyfer.
- Ffioedd Archwilio - bydd rhaid i Archwilio Cymru archwilio'r cyfrifon, ac felly bydd rhaid talu ffi iddynt gynnal yr archwiliad. Nodwyd mai'r swm llawn sydd wedi ei gynnwys, ond er na ellid rhoi sicrwydd ar hyn, y gobaith yw y bydd yn llai.
- Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol' – gwerth 2 fis o gyllideb wedi ei osod ar y penawdau yma, gan eithrio Cyllid, gan y bydd gofyn statudol i baratoi set o gyfrifon llawn, er cyfnod o ddau fis yn unig fydd angen ei gyfrifo. Y gyllideb felly yn adlewyrchu y gwaith yma a'r gwaith sydd ei angen gan yr Adran Cyllid yn ystod cyfnod yr archwiliad efo Archwilio Cymru.
- Model cenedlaethol a phrosiectau penodol - dim cyllideb wedi ei ddarparu
- Gwasanaethau a gomisiynwyd gan yr Awdurdodau – dau fis o gyllideb wedi ei osod

O ganlyniad i'r rhagolygon uchod, ystyriwyd gosod cyfanswm y gyllideb gwariant yn £1.2 miliwn (12% o gyllideb 2024/25, sydd yn llai na gwerth 1 rhan o 6, sef 2 fis, sydd yn 17%). O ran ariannu'r costau yma, cyfeiriwyd at y cyfraniadau craidd a'r cyfraddau perthnasol wedi ei nodi fel cyfraniadau yr awdurdodau, gyda gwerth 2 fis wedi ei darparu.

Pwysleisiodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau (Cyngor Gwynedd), mai amcan yn unig oedd y gyllideb yma, a bod disgwyliad mai dim ond y gwariant angenrheidiol fydd yn cael ei wneud hyd ddiwedd Mai. Cadarnhawyd mai yn seiliedig ar y gwir gost fydd yr hawliad yn cael ei wneud i'r Awdurdodau.

Yng nghyd-destun arian wrth gefn, gan fod y gronfa wrth gefn wedi cael ei defnyddio i gyllido sefyllfa ariannol 2024/25, nid yw ar gael ar gyfer 2025/26.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:
- Yn croesawu'r gyllideb er bod angen mwy o eglurhad / sail rhesymegol dros rai o'r penderfyniadau – awgrym i'r mater gael ei drafod / herio yn y Bwrdd Trosiannol gydag adborth i gyfarfod nesaf o'r Cydbwyllgor
- Oediad gan Lywodraeth Cymru i ddirwyn GwE i ben sydd wedi arwain at gostau ychwanegol – pam felly'r Cynghorau sydd yn wynebu'r costau? Awgrym i ysgrifennu at y Llywodraeth yn gofyn am eglurder i'r oediad a chais i Cyngor Gwynedd (fel yr Awdurdod Lletyol) i dafod y mater yng nghyfarfod gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru
- Cynnig bod llythyr o gefnogaeth / datganiad gwleidyddol gan y Cydbwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Lletyol yn cefnogi eu pryderon o'r costau ychwanegol sydd i ddirwyn GwE i ben oherwydd oediad gan y Llywodraeth o ran defnydd Grant Addysg Awdurdod Lleol (GAALl) i gefnogi Dysgu Proffesiynol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a derbyn adborth o gyfarfod Cyngor Gwynedd gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru, nodwyd nad oedd dyddiad nac amser wedi ei gadarnhau ar hyn o bryd, ond yn sicr bydd canlyniad y cyfarfod yn cael ei rannu gyda'r Cydbwyllgor. Ategwyd mai prin oedd yr amser a bod angen eglurder a sicrwydd o'r sefyllfa ariannol cyn cyfarfod y Cydbwyllgor yn mis Mai.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.**
- **Adborth o gyfarfod yr Awdurdod Lletyol gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor**
- **Bod llythyr o gefnogaeth / datganiad gwleidyddol gan y Cydbwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Lletyol yn cefnogi eu pryderon o'r costau ychwanegol sydd i ddirwyn GwE i ben oherwydd oediad gan y Llywodraeth o ran defnydd Grant Addysg Awdurdod Lleol (GAALl) i gefnogi Dysgu Proffesiynol.**

**7. PARHAD GWASANAETH 01/04/2025 i 31/05/2025**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Pennaeth Gwasanaeth - Gwella Ysgolion a Phennaeth Gwasanaeth GwE - Dysgu Proffesiynol yn nodi trefniadau gweithredu GwE am y cyfnod 01/04/2025 i 31/05/2025. Eglurwyd bod Prif Weithredwyr y chwe Awdurdod Addysg bellach wedi cadarnhau dyddiad terfynu GwE fel 31ain o Fai yn hytrach na'r 31ain o Fawrth, 2025 sydd yn golygu bydd y Gwasanaeth yn parhau heibio i'r flwyddyn gyllidol presennol, a'r Cytundebau Comisiynu a'r Cynlluniau Busnes presennol, am gyfnod o ddau fis ychwanegol. Ategwyd bod cytundebau unigolion sydd ar secondiad neu'n gweithio ar gomisiwn i GwE yn dod i ben ar 31ain o Fawrth ac y bydd hyn yn effeithio capasiti'r Gwasanaeth. Nodwyd hefyd, er yn gyfnod o ddau fis, bydd yr ysgolion ond yn agored am chwe wythnos yn ystod y cyfnod yma oherwydd gwyliau'r Pasg a hanner tymor.

Er nad yw'n ymarferol llunio Cynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu ar gyfer y cyfnod byr yma, adroddwyd y byddai'r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi ysgolion yn unol â'r gofynion craidd ac y bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ymateb yn hyblyg i ofynion ysgolion gan sicrhau gwasanaeth llyfn a di-dor yn ystod y cyfnod trosiannol yma. Bydd hyn yn cynnwys yr ymweliadau arferol o fonitro a sicrhau ansawdd addysgu a dysgu yn yr ysgolion. Ategwyd, pe byddai diffyg na ellid ei lenwi, bydd y Gwasanaeth yn ystyried comisiynu penaethiaid trwy gytundeb gyda'r Prif Swyddogion Addysg ac yn unol â'r hyn a gytunwyd arno yn y Cydbwyllgor ar 2 Hydref 2024.

Yng nghyd-destun Amserlenni Rhaglenni Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, nodwyd bydd rhai carfannau hyfforddiant cenedlaethol, sydd yn gyfrifoldeb i GwE, heb eu cwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25. Mewn ymateb, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ar lafar i sicrhau bod unrhyw raglen dysgu proffesiynol Cenedlaethol yn parhau tan ei diwedd.

Yng nghyd-destun Hyfforddiant Lleol / Rhanbarthol, nodwyd bod yr amserlen wedi ei chyfyngu i delerau grant 2024/25 ac felly nid yw'n ymarferol llunio cynnig Dysgu Proffesiynol i ysgolion am gyfnod o ddau fis 2025/26. Bydd hyblygrwydd i staff GwE gynnal sesiynau yn ddibynnol ar yr angen ac ar y capasiti sydd ganddynt, o ystyried mai tîm cyfyngedig fydd gan GwE wedi'r Pasg.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Bod angen cydweithio gyda'r Adrannau Addysg i sicrhau na fydd costau pellach.

- Bod Llywodraeth Cymru drwy'r Awdurdodau Lleol yn  ymrwymo i sicrhau bod cydweithwyr ar raglenni yn eu cwblhau yn llwyddiannus – angen sicrhau parhad iddynt
- Costau tu hwnt i Fai 2025 – ai'r Awdurdodau fydd yn cymryd y baich yntau Lywodraeth Cymru? Angen eglurder

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â capasiti staff nodwyd y byddai GwE yn ceisio sicrhau cefnogaeth i ysgolion gyda thrafodaethau gydag Awdurdodau unigol i drafod y sefyllfaoedd mwyaf anghenus.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo trefniadau gweithredu GwE am y cyfnod 01/04/25 i 31/05/25.**
- **Bod angen eglurder ynglŷn â thaliadau costau ychwanegol tu hwnt i Fai 2025. Ai'r Awdurdodau Lleol unigol neu Llywodraeth Cymru fydd yn cymryd y baich?**

**8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Ar y pwynt yma nid oes penderfyniad yn cael ei wneud ac mae angen trafod y bwriad. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**9. DISWYDDIADAU GWIRFODDOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol yr Awdurdod Lletyol yn manylu ar yr ymatebion a daeth i law gan swyddogion GwE i wahoddiad a gyflwynwyd iddynt ddatgan diddordeb mewn cael eu hystyried ar gyfer derbyn telerau diswyddiad gwirfoddol yn wyneb dirwyn GwE i ben.

Adroddwyd bod 17 datganiad o ddiddordeb wedi eu derbyn a rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau unigol hynny yn unol â'r meini prawf. Cyflwynwyd costau diswyddo ar gyfer pob un datganiad gydag argymhelliad a rhesymeg tu cefn i'r argymhellion unigol wedi eu nodi er gwybodaeth i'r Cydbwyllgor.

O gymeradwyo'r argymhellion, byddai chwe swyddog yn cael cynnig telerau diswyddo gwirfoddoli. Pwysleisiwyd mai trefn diswyddo gwirfoddol oedd yma ac nid trefn diswyddo gorfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol;

- Bod angen sicrhau nad oes camwahaniaethu a bod y broses wedi cydymffurfio gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb
- Angen sicrhau nad oes cyfleoedd wedi eu colli i ail-leoli swyddogion? A oes cytundeb cyfaddawd wedi ei ystyried o ystyried yr amgylchiadau?
- A yw'r rhybydd diswyddiad yn ddigonol?

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â hawliau gwyliau blynyddol ar disgwyliad i'r swyddogion eu defnyddio cyn ymadael (i osgoi costau ychwanegol tu hwnt i fis Mai), nodwyd bod anogaeth i'r swyddogion ddefnyddio eu gwyliau cyn diwedd Mai 2025, ac y byddai angen i'r swyddogion hynny sydd yn trosglwyddo i'r Awdurdodau unigol gynnal trafodaeth ynglŷn a'u hawliau gwyliau.

Mewn ymateb i bryder ynglŷn â phosibilrwydd o gŵyn / achos tribiwnlys yn codi o'r broses, pwy fydd yn delio â'r gŵyn ac os oedd arian wrth gefn a'r gyfer costau achos, nodwyd mai Gwynedd fel yr Awdurdod Lletyol fyddai'n arwain ar unrhyw achos yn erbyn y diswyddiadau.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r argymhellion ar gyfer gwrthod / caniatáu ceisiadau unigol.**
- **Cymeradwyo cyfarch cost y diswyddiadau gwirfoddol o'r arian sydd wedi ei gronni.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:05

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 21 Mai 2025 |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol GwE 2024/25 – Alldro Refeniw** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2024/25.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **AWDUR** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. PENDERFYNIAD

**Gofynnir i'r Cydbwyllgor:**

1.1 **Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am y flwyddyn 2024/25**, sef sefyllfa o orwariant o £523,065, sydd i'w gyllido drwy gyfraniadau gan yr awdurdodau.

1.2 Cymeradwyo trosglwyddiadau ariannol o £221,310 o'r gronfa tanwariant, a £312,547 o'r gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) i leihau gorwariant GwE yn 2024/25.

1.3 Cymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2024/25, fydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn. Fydd yn cael eu cynhyrchu, eu hardystio a'u cyhoeddi gan yr Adran Gyllid yr awdurdod lletya o fewn yr amserlen statudol.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2024/25 yn **Atodiad 1**.

2.2 Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2024/25, yn dilyn gwneud defnydd llawn o'r gronfa tanwariant (£221,310) a'r balans sydd ar ôl yn y gronfa athrawon newydd gymhwyso (£312,547), sef cyfanswm o (£533,857), adroddir ar orwariant o £523,065 gan GwE ar gyfer 2024/25.

Yn seiliedig ar y ddealltwriaeth fod y gorwariant net o £523,065 i'w gyllido drwy gyfraniadau pellach gan yr awdurdodau, bydd y cyfraniadau i'w rannu ar sail gyfartal rhwng y cynghorau i ddod i gyfanswm o £523,065 fel a nodir yn **Atodiad 1**

2.3 Y sefyllfa terfynol am y flwyddyn ar yr elfen perfformiad gwasanaeth GwE yn 2024/25 oedd tanwariant net o (£857,548). Ond, fod costau net terfynu GwE, gan gynnwys y costau diswyddo, costau terfynu contractau swyddfeydd GwE a derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru yn £1,914,471. Felly, adroddwn ar sefyllfa net o £1,056,923.

2.4 Yn yr adolygiad hyd at ddiwedd Ionawr 2025, adroddwyd ar ragolygon gorwariant o £919,477 am y flwyddyn. Bellach, mae'r gorwariant wedi lleihau i £523,065 yn dilyn gwneud defnydd o'r Gronfa ANG.

2.5 Mae Rhan 3 isod yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 **Gweithwyr a Chostau Diswyddo:**
**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £961,609** *Ionawr 2025: Gorwariant £1,104,407*
Mae'r gyllideb yma yn gorwario yn sylweddol oherwydd y costau diswyddo y bydd GwE yn gorfod eu hysgwyddo. Yn dilyn derbyn grant o £738,000 gan Lywodraeth Cymru drwy'r awdurdodau, mae costau diswyddo net y bydd GwE angen eu hariannu yn £1,779,471. Mae tanwariant ar y gyllideb sylfaenol o (£817,862) yn cynorthwyo i leihau y gorwariant uchod. Mae'r tanwariant yma yn deillio o gyfuniad o ailstrwythuro yr uwch dîm yn Awst 2024, trosiant staff, staff ar secondiad ac ariannu staff drwy grant.

3.2 **<u>Adeiladau a chostau terfynu contractau swyddfeydd GwE:</u>**
**<u>Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £120,897</u>** *<u>Ionawr 2025: Gorwariant £89,534</u>*
Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu i'r hyn a adroddwyd hyd at ddiwedd Ionawr, o ganlyniad i gostau terfynu contract swyddfa Bryn Eirias nad oedd yn hysbys ynghynt. Felly, mae'r gorwariant o £120,897 yn gallu cael ei egluro o ganlyniad i gostau terfynu contract swyddfeydd GwE sydd yn £135,000 yn ei gyfanrwydd.

3.3 **<u>Cludiant:</u>**
**<u>Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£19,167)</u>** *<u>Ionawr 2025: Tanwariant (£34,032)</u>*
Mae'r pennawd yma yn parhau i danwario yn erbyn y gyllideb, ond wedi lleihau o'r hyn a adroddwyd hyd at ddiwedd Ionawr. Hyn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn yr hawliadau teithio y staff sy'n gyflogedig gan GwE, ynghyd â derbyniad anfonebau am gostau teithio staff asiantaeth a staff ar secondiad yn GwE.

3.4 **<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau:</u>**
**<u>Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £8,599</u>** *<u>Ionawr 2025: Tanwariant (£19,122)</u>*
Mae'r sefyllfa yn agos i led niwtral oherwydd na fydd GwE yn gwneud cyfraniad o £19,602 i'r gronfa adnewyddu technoleg gwybodaeth. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu £27,721 i'r hyn adroddwyd hyd at ddiwedd Ionawr, gyda hyn y deillio yn bennaf o gostau anorfod sydd wedi taro o ganlyniad i rôl GwE yn arwain ar brosiectau ar draws y gogledd. Byddai'r costau ychwanegol yma wedi cael eu hariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru yn y gorffennol, ond gyda dull ariannu GwE wedi newid i dderbyn cyfraniadau gan yr Awdurdodau yn unig, mae rhaid adnabod y costau yma o fewn y penawdau priodol yn y gyllideb craidd.

## 4. CRONFA TANWARIANT

4.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £221,310.

4.2 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo gwneud defnydd llawn o'r gronfa tanwariant eleni.

## 5. CRONFA ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO

5.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £455,235.

5.2 Mae gwerth £142,688 wedi ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ar athrawon sydd newydd gymhwyso. Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo fod gweddill yr arian yn y gronfa sef £312,547 yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at leihau y gorwariant a adroddir eleni.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2024/25.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

# CYD-BWYLLGOR GwE
## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2024/25

| | Cyllideb<br>£ | Gwariant<br>£ | Gor / (Tan) Wariant Net<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr - Cyflogau, Hyfforddiant, a costau gweithwyr eraill | 7,024,852 | 6,206,991 | (817,862) |
| **Terfynu GwE** - Costau Diswyddo Staff | 738,000 | 2,517,471 | 1,779,471 |
| Adeilad - Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 222,721 | 208,618 | (14,103) |
| **Terfynu GwE** - Costau terfynu contractau swyddfeydd GwE | 0 | 135,000 | 135,000 |
| Cludiant - Costau Teithio | 163,107 | 143,940 | (19,167) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 87,857 | 111,049 | 23,192 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 19,602 | 0 | (19,602) |
| Ffioedd archwilio | 13,611 | 18,620 | 5,009 |
| Cynlluniau Rhanbarthol / Comisiynu | 469,234 | 479,414 | 10,180 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | |
| Cyfreithiol | 6,804 | 6,804 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 11,667 | 11,667 | 0 |
| Cyllid | 50,449 | 50,449 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 55,798 | 55,798 | 0 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | 469,948 | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 372,082 | 372,082 | 0 |
| Ein Llais Ni | 100,868 | 100,868 | 0 |
| Prosiect Cymraeg Mewn Addysg | 70,000 | 70,000 | 0 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | 61,770 | 61,770 | 0 |
| Prosiect Taith | 9,481 | 9,481 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **9,947,852** | **11,029,969** | **1,082,118** |

| | Cyllideb | Incwm | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Incwm** | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (23/24: 10.09% - 24/25: 10.04%) | (401,942) | (401,942) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (23/24: 17.53% - 24/25: 17.55%) | (702,451) | (702,451) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (23/24: 15.17% - 24/25: 15.24%) | (609,921) | (609,921) | 0 |
| - Cyngor Sir Ddinbych (23/24: 15.51% - 24/25: 15.62%) | (624,967) | (624,967) | 0 |
| - Cyngor Sir y Fflint (23/24: 22.79% - 24/25: 22.71%) | (908,701) | (908,701) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (23/24: 18.91% - 24/25: 18.84%) | (753,808) | (753,808) | 0 |
| Gwasanaeth a Gomisiynwyd gan yr Awdurdodau | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (12.99%) | (569,720) | (569,720) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (18.40%) | (806,630) | (806,630) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (14.94%) | (655,581) | (655,581) | 0 |
| - Cyngor Sir Ddinbych (14.23%) | (624,384) | (624,384) | 0 |
| - Cyngor Sir y Fflint (20.80%) | (912,493) | (912,493) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (18.64%) | (817,891) | (817,891) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) - Cyfraniad CGA | (229,394) | (229,394) | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) - Cyfraniad o'r gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso | (142,688) | (142,688) | 0 |
| Ein Llais Ni | (102,004) | (102,004) | 0 |
| Prosiect Cymraeg Mewn Addysg | (70,000) | (70,000) | 0 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | (61,770) | (61,770) | 0 |
| Prosiect Taith | (9,481) | (9,481) | 0 |
| Incwm Secondiadau / Amser Staff | (192,325) | (192,325) | 0 |
| Incwm Arall | (13,700) | (13,700) | 0 |
| **Terfynu GwE** - Cyllid Pontio ar gyfer y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion (Cyfraniadau y 6 awdurod £123k x 6) | (738,000) | (738,000) | 0 |
| Cyfraniad o'r gronfa tanwariant | 0 | (221,310) | (221,310) |
| Cyfraniad o'r gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso | 0 | (312,547) | (312,547) |
| Llôg ar falansau | 0 | (25,195) | (25,195) |
| Cyfraniad yr awdurdodau at orwariant o £523,065 GwE 24/25 (swm cyfartal o £87,178 fesul awdurdod) | 0 | (523,065) | (523,065) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(9,947,852)** | **(11,029,969)** | **(1,082,118)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Tanwariant**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2024** | **(221,310)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2024/25 | 0 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 221,310 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2025** | **0** |

**Y Gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2024** | **(455,235)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2024/25 | 0 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 455,235 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2025** | **0** |

**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**21 MAI 2025**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Euros Davies – Pennaeth Gwasanaeth - Gwella Ysgolion |
| **Pwnc:** | Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Derbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018) yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Mae'r datganiad yn manylu ar y trefniadau sydd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 ac yng nghyd-destun y newidiadau a amlinellir yn Rhan 1 o'r ddogfen.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o’r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o’r adroddiad hwn.

**7.0 Atodiadau**

7.1 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

**Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:** Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:** Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE yn 2024/25, mewn blwyddyn eithriadol a heriol, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Mae’r datganiad yn cwrdd â’r gofyn i ddisgrifio fframwaith lywodraethu GwE, ac i asesu pa mor effeithiol mae’n gweithredu.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, roedd y Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Y weledigaeth oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i fod yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

1.5 Ar 18 Rhagfyr, 2023, daeth Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, â'r Adolygiad Haen Ganol i ben, gan dderbyn bod y canfyddiadau interim yn derfynol. Ar 19 Rhagfyr, 2023, rhesymolwyd y grantiau addysg cyn-16 a ddyrannwyd i'r Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru gyda'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Ar 31 Ionawr, 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: *Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru*. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniant gwella ysgolion yng Nghymru gyda model partneriaeth rhwng dau Awdurdod Lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia.

1.6 Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno'r prif grantiau addysg o dan un pennawd, sef y Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25 ymlaen, talwyd y grant i'r Awdurdodau Lleol i reoli a dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i ysgolion. Yr Awdurdodau Lleol unigol sydd bellach yn llwyr gyfrifol am ofynion, risgiau, telerau ac amodau y grant. Er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth i ysgolion tra bod yr adolygiad yn mynd yn ei flaen, nododd Llywodraeth Cymru y disgwyliad bod unrhyw drefniadau gweithio rhanbarthol presennol yn parhau yn ystod y cyfnod hwn a'u bod yn cael eu hwyluso drwy'r cyllid grant penodol i gefnogi'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Trosglwyddwyd yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth' o'r GAALl 'Diwygio' yn llawn i GwE gan pob un o 6 Awdurdod Lleol y rhanbarth er mwyn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma ac sydd yn bodloni telerau ac amodau'r grant. Mae Cyllideb GwE ar gyfer 2024-25 hefyd yn adlewyrchu penderfyniad y chwe Awdurdod Lleol i leihau eu cyfraniad at y gwasanaeth craidd o 10%.

1.7 Mae'r penderfyniadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth a ddarperir gan GwE a'r trefniadau gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru o 1 Ebrill, 2024. Yn benodol:

- Mae GwE wedi newid o fod yn 'wasanaeth rhanbarthol ar y cyd' i fod yn wasanaeth sydd wedi'i gomisiynu.
- Cleient yw GwE sydd yn darparu comisiwn gwahaniaethol i'r Awdurdodau Lleol.
- Y Prif Swyddogion Addysg sydd yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwella ysgolion, a ddelir yn atebol gan drefniadau craffu lleol.
- Roedd rhaid i GwE gadw'n gaeth at y comisiwn a ddiffinnir gan yr Awdurdodau Lleol ac a nodir yn y Cytundebau Comisiynu unigol am y Flwyddyn Ariannol 2024-25.

1.8 Mae'r datganiad hwn yn manylu ar trefniadau sydd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 ac yng nghyd-destun y newidiadau uchod.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

2.1 Mae’r fframwaith llywodraethu’n cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliant a’r gwerthoedd hynny sy’n cyfeirio a rheoli GwE, a’r gweithgareddau ble mae’n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae’n galluogi’r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw’r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae’r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o’r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu’r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae’r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy’n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy’n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso’r tebygolrwydd o'r risgiau hynny’n cael eu gwireddu a’r effaith petai hynny’n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae’r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy’n diweddu 31 Mawrth 2025, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2024-25.

**Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD**

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (a chefnogol) sydd yn y *'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016*)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Mae'r datganiad hwn yn manylu ar trefniadau sydd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 ac yng nghyd-destun y newidiadau a amlinellir yn Rhan 1.

| Egwyddor A | Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
    - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
    - Ymrwymiad a Chymhelliant
    - Sgiliau a Chreadigedd
    - Perthnasau Effeithiol
    - Datblygu ac Addasu
    - Enw Da
    - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
    - Caniatâd Angenrheidiol
    - Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion
- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.
- Mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
    - Parch
    - Ymddiriedaeth
    - Lles
    - Arloesi ac ysbrydoli

- Cefnogi a chydweithio
- Cymru a'r Gymraeg

- Disgwylir i staff arddel ac arddangos y safonau uchaf o ymddygiadau a gwerthoedd y gwasanaeth.
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2024-25 yn rhithiol ar Zoom. Mae canllawiau wedi eu darparu i'r Aelodau mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd rhithiol.

| Egwyddor B | Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae GwE yn annog i'w randdeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; rhwydweithiau, cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- Sicrheir natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy:
    - Cydweithio yn sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
    - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
    - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
    - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
    - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALl/Aelodau Etholedig.
    - Diweddaru rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
    - Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
    - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
    - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
    - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr, cynghreiriau a rhwydweithiau ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu'r arferion gorau. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol.
- Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau effeithiol ar gyfer adolygu cymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation'. Mae'r egwyddorion ynghlwm yn rhan o bob Dysgu Proffesiynol ac ar draws GwE.

- Mae pedair thema drawsliniol sy'n rhedeg drwy gydol y gwaith hwn, ac sy'n greiddiol i ddatblygu sefydliad sy'n dysgu, sef Ymddiriedaeth, Amser, Technoleg a Meddwl Gyda'n Gilydd. Bu'r rhain yn sylfaenol ar gyfer datblygu ffordd GwE o fynd ati i ddatblygu partneriaethau cryf gan fod ymddiriedaeth yn sylfaen i'r berthynas sydd ei hangen, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn i sefydliadau sy'n dysgu ffynnu.
- Bu cytundeb â Phenaethiaid ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. Cytunwyd ar fodel adolygu cymheiriaid a chynllunio gwelliant (sef y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion [SPP]), a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae holl YCG GwE wedi cael hyfforddiant a chymorth parhaus ar adolygu cymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi ac mae rhaglenni ar waith i gynnig hyfforddiant ar y RhPY i'r 405 o ysgolion yn y rhanbarth a'r Unedau Cyfeirio.

| Egwyddor C | Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy. |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan bob Awdurdod Lleol Gynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd.
- Mae Cynlluniau Busnes GwE gyda'r Awdurdodau Lleol yn cyfarch Telerau ac Amodau'r grant Diwygio. Mae'r cynlluniau yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth o ran yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth'.
- Roedd Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yn ymateb yn benodol i ofynion telerau ac amodau'r grant hefyd, ac yn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma. Roedd y Cynnig ar gael am ddim i holl ymarferwyr y Gogledd ar ffurf catalog ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson Cynnig Proffesiynol GwE.
- Mae GwE wedi adrodd i'r Cyd-bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol ar yr elfen Diwygio o'r grant yn ystod 2024-25.
- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae GwE hefyd wedi datblygu Strategaeth Arfarnu ac Effaith fel y gall arfarnu a chofnodi'n glir effaith ei waith yn unol â'i swyddogaeth gwella ysgolion graidd, ac fel y gall fodloni'n llawn y disgwyliadau a amlinellir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion. Pwrpas y Strategaeth yw nodi'n glir sut y bydd GwE yn rhan o brosesau arfarnu parhaus yn unol â'i ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o welliant parhaus fel sefydliad sy'n dysgu. Bydd y prosesau hunan arfarnu hyn yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ansoddol a meintiol sy'n cefnogi ysgolion i weithio tuag at y blaenoriaethau cenedlaethol.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt.

| Egwyddor D | Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd cyfres o adroddiadau a'u rhannu â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn.

- Cafwyd ymweliadau gan AEM Estyn drwy'r Arolygydd Cyswllt y Consortia Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn.
- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.
- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.
- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.
- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:
    - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;
    - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gydag unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.
- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
    - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;
    - cysylltu â chyrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;
    - cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
    - goruchwylio gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;
    - cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;
    - cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;
    - monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
    - cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gynghorau unigol;

- cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
    - penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;
    - penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;
    - ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:
    - Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALl unigol;
    - Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
    - Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
    - Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
    - Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.

- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau.

- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

- Drwy'r broses hunanarfarnu, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

| Egwyddor E | Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion. |
|---|---|
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol at ddibenion gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod y pandemig ac wedyn.
- Mae’r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir.
- Mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.

- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol yn ystod y flwyddyn sy'n ystyried anghenion hyfforddi neu ddatblygu.
- Mae gan aelodau staff fynediad at sesiynau anwytho priodol wedi'i deilwra i'w rôl gyda hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae iechyd a lles plant a'r gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles ein staff ysgol, plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.
- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol.

| | |
|---|---|
| Egwyddor F | Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol Gynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd.
- Mae Cynlluniau Busnes GwE gyda’r Awdurdodau Lleol yn cyfarch Telerau ac Amodau'r grant Diwygio. Mae’r cynlluniau yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth o ran yr elfennau ‘Cwricwlwm i Gymru’ a ‘Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth’.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae trefniadau ar waith i adnabod a rheoli risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i’r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i’r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt.
-

| | |
|---|---|
| Egwyddor G | Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl.
- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.

**Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.

**Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU**

5.1 Ni adnabuwyd Materion Llywodraethu yn 2024/25.

**Rhan 6: BARN**

Rydym o'r farn bod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd cryf bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda.

| | |
|---|---|
| ____________________________________ | ____________________________________ |
| **Swyddog Arweiniol GwE** | **Cadeirydd Cydbwyllgor GwE** |
| **Dyddiad:** _____________________________ | **Dyddiad:** _____________________________ |
| EUROS DAVIES | CYNGHORYDD JULIE FALLON |
| PENNAETH GWASANAETH GwE | CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cydbwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 21 Mai 2025 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cydbwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno trefn ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', i'r dyfodol.<br><br>Cyflwyno Cynllun Archwilio Cymru ar gyfer 2024/25. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cydbwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cydbwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5 miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chod CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.5 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE. Gan fod GwE yn dod i ben ar 31 Mai 2025, o ganlyniad ni fydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod ar ôl y dyddiad yma, ac felly, bydd cyfrifon 2024/25 a 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd i'w cymeradwyo.

## 2. CYFRIFON 2024/25

2.1 Cyflwynwyd adroddiad “alldro” cryno perthnasol ar gyfrifon 2024/25 fel eitem flaenorol i'r Cyd-Bwyllgor 21/05/2025. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn ofyniad statudol ac yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

2.2 Byddwn yn cyflwyno'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2024/25 (yn amodol ar archwiliad), wedi'i ardystio gan Dewi Aeron Morgan, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, i Archwilio Cymru ym Mehefin 2025. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol.

2.3 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd sydd wedi eu penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2.4 Yn dilyn yr archwiliad bydd yr archwilwyr yn cynhyrchu adroddiad “ISA 260”, sy'n manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn enw'r Archwilydd Cyffredinol. Anelir i gyflwyno'r adroddiad hwn ar cyfrifon terfynol i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd ar 9 Hydref 2025.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a nodi'r drefn fydd i'w dilyn ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2024/25 a 2025/26.

3.2 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a nodi'r Cynllun Archwilio fel a gyflwynwyd gan archwilwyr Archwilio Cymru.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyd-bwyllgor GwE – Cynllun Archwilio Manwl 2025

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4879A2025



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Ein nodau a’n huchelgeisiau | 5 |
| Gwaith archwilio ariannol | 6 |
| Swyddogaethau archwilio statudol eraill | 14 |
| Ffi archwilio | 14 |
| Tîm archwilio | 16 |
| Ansawdd archwilio | 17 |
| Eich cynorthwyo | 18 |

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei swyddogaeth unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu anfonwch e-bost at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rwy'n falch o rannu fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2025. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cynnal eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun yn dilyn proses gynlluniau strwythuredig a seiliedig ar risg, a fydd yn parhau drwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn rhoi rhagor o fanylion ar sut y bydd fy archwiliad a swyddogaethau eraill penodol yn cael eu cyflawni gan fy archwilwyr.

Wrth graidd ein holl waith y mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell o sicrwydd (tudalen 17) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau hynny o ansawdd yn cael eu bodloni. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf, Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024, yn cynnig mwy o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion sy'n eich wynebu, i sicrhau bod y broses archwilio yn gweithredu mor ddidrafferth â phosibl, hyd yn oed ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben ar 31 Mai 2025.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich archwiliad, bydd fy nhîm archwilio yn hapus i'w trafod â chi. Byddant hefyd yn rhoi gwybodaeth reolaidd i chi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

# Ein nodau a'n huchelgeisiau

## Ein diben

- Sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda
- Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario
- Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

## Ein gweledigaeth

- Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder gwybodaeth unigryw
- Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodedig, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad, a'n perthnasedd
- Bod yn sefydliad sy'n esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Ein meysydd o bwyslais

- Rhaglen archwilio strategol, ddynamig, ac o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu

Gallwch ddarganfod mwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Ein Strategaeth 2022-27.

# Gwaith archwilio ariannol

## Archwilio datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' a'u paratoad priodol yn unol â gofynion cyfrifyddu a chyfreithiol.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Perthnasedd datganiadau ariannol

Nid wyf i'n ceisio cael sicrwydd pendant ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig, ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol a chywir, hynny yw, y rhai a allai arwain at ddarllenydd y cyfrifon yn cael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn berthnasol nid yn unig i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu a chydymffurfiad â'r fframwaith a'r gyfraith gyfrifyddu berthnasol.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad i:

- benderfynu ar lefel y camddatganiad a allai achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- cynorthwyo yn y gwaith o gwmpasu ein dull archwilio a phrofion archwilio canlyniadol;
- penderfynu ar faint samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; ac
- adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchben lefel ddibwys, ein trothwy adrodd.

Nodir y lefelau yr wyf i'n barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol arnynt isod.

**Perthnasedd cynllunio**

yn cynrychioli 2% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol a archwiliwyd

**£356,800**

**Perthnasedd perfformiad**

yn cynrychioli 75% o berthnasedd.

**£267,600**

**Trothwy adrodd (dibwys)**

yn cynrychioli 5% o berthnasedd.

**£17,800**

**Cydnabyddiaeth uwch-swyddogion**

£1,000

**Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion)**

£10,000

Bydd fy nhîm archwilio yn asesu lefelau perthnasedd drwy gydol yr archwiliad.

## Risgiau datganiadau ariannol sylweddol

Risgiau o gamddatganiad perthnasol y mae’r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm o risg gynhenid neu’r rhai y dylid eu trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill yw risgiau sylweddol. Mae’r ISAs yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i’r risgiau sylweddol hyn.

### Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae’r risg y bydd rheolaethau yn cael eu gwrthwneud gan reolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai

gwrthwneud o'r fath ddigwydd, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.32-33].

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a
- gwerthuso'r rhesymeg sy'n sail i unrhyw drafodiadau sylweddol y tu allan i'r trywydd busnes arferol.

## Meysydd eraill o bwyslais

Rwy'n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd ac yr hoffwn dynnu eich sylw atynt, er na ystyrir eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod.

### Prisio rhwymedigaeth net/gwarged cronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth, er enghraifft, ar 31 Mawrth 2024, roedd y rhwymedigaeth yn warged mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.

Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad rhwymedigaeth net.

Mae risg felly bod y rhwymedigaeth /gwarged yn cael ei gam-ddatgan yn faterol.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- gwerthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd oddi wrth yr actiwari;
- asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac
- asesu pa un a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith perthnasol ar y rhwymedigaeth net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

## Taliadau pecyn ymadael i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli sy'n gadael

Mae diddymu'r Cyd-bwyllgor ar 31 Mai 2025 wedi arwain at ailstrwythuro'r Uwch Dîm Rheoli gan arwain at ymadawiad uwch swyddogion yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn cael ei ystyried yn faes sensitif ar gyfer datgeliadau a allai arwain at gamddatganiad materol oherwydd y trothwy perthnasedd is a gymhwysir i gydnabyddiaeth uwch swyddogion (fel y nodwyd uchod) a allai arwain at ddiffyg cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- sicrhau bod y gydnabyddiaeth a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol; a
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion.

## Tâl Uwch Swyddogion

Mae'r gydnabyddiaeth a delir i uwch swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb uchel ac yn faterol wrth ei natur. Mae risg nad yw newidiadau yn yr Uwch Dîm Rheoli yn dilyn yr ailstrwythuro yn cael eu datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol a gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel wrth ddatgelu tâl arwain at gamddatganiad sylweddol.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2024-25;
- sicrhau bod y gydnabyddiaeth a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol; a
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion.

## Gweithredu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR 16) - Lesoedd

Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu SAAR 16 Lesoedd o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth a'r datgeliadau cyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar les ac mae'n golygu y bydd y rhan fwyaf o lesoedd yn arwain at ased a rhwymedigaeth ar fantolenni.

Mae risg nad yw gofynion SAAR yn cael eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu'r papurau gwaith y Cyd-bwyllgor i sicrhau bod yr holl lesoedd sy'n dod o fewn cwmpas y Safon wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau;

- profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaeth i sicrhau bod y rhagdybiaethau'n rhesymol, a bod cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir; a
- chadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaeth wedi'u cyfrif yn gywir a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

## Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y Cyd-bwyllgor a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cyd-bwyllgor lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus er enghraifft, cyflogwyr sy'n cymryd rhan fel cyfranwyr.

Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddog neu aelod unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder o ran y cysylltiadau hyn. Mae'r trafodiadau hyn o ddiddordeb mawr ac yn cael eu hystyried yn berthnasol o ran natur.

Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu proses y rheolwyr ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig;
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

## Costau Diswyddo

Mae diddymu'r Cyd-bwyllgor ar 31 Mai 2025 wedi arwain at ddiswyddo rhai staff ar 31 Mai 2025. Cymeradwywyd y rhain yn ystod 2024-25.

Bydd croniad ar gyfer costau amcangyfrifedig ar gyfer diswyddiadau ar 31 Mai 2025 yn cael ei ddatgelu yn natganiadau ariannol 2024-25. Mae risg o gamddatganiad materol gan fod gwerth y taliadau yn debygol o fod yn sylweddol.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio:

- asesu rhesymoldeb y rhagdybiaethau a wnaed gan y Cyd-bwyllgor wrth gyfrifo'r croniad; a
- chynnal profion manwl ar sampl o drafodion.

## Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Ceir amserlen isod yn dangos camau allweddol yr archwiliad a'n hagweddau allweddol i'w cyflawni yn yr archwiliad y byddwn yn eu darparu i chi.

**Arddangosyn 1: Amserlen Archwilio Datganiadau Ariannol**

| | |
|---|---|
| **Cynllunio**<br>**Chwefror i Ebrill 2025** | Cyfarfod cynllunio<br>Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel<br>Asesiad risg twyll<br>Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu<br>Asesiad risg amgylchedd TG |
| **Interim**<br>**Mawrth i Mai 2025** | Llifoedd gwybodaeth<br>Gweithdrefnau asesu risg manwl<br>Adolygiad rheolaethau TG<br>Datblygu strategaeth brofi<br>Profi samplau cynnar<br>Cynllun Archwilio Manwl |
| **Gwaith maes**<br>**Mehefin i Hydref 2025** | Diweddaru'r asesiad risg<br>Archwilio datganiadau ariannol i gynnwys adroddiad naratif a datganiad llywodraethu blynyddol<br>Cwblhau profion archwilio<br>Gwerthuso canfyddiadau archwilio<br>Cyfarfod cloi'r archwiliad |
| **Adrodd**<br>**Hydref 2025** | Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon<br>Argymhellion ar gyfer gwella<br>Cyflwyno canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu<br>Ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol |

# Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiad mewn archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi cynnwys unrhyw ystyriaeth yn y ffi isod. Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Pennaeth Cyllid.

# Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Ffioedd 2025-26 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n rhoi manylion y cynnydd cyfartalog i gyfraddau ffioedd o 1.7%.

Bydd y ffi wirioneddol y mae unrhyw gorff unigol sy'n cael ei archwilio yn ei thalu yn dibynnu nid yn unig ar ein cyfraddau ffioedd ond ar gyfanswm y gwaith a'r gymysgedd sgiliau sy'n ofynnol.

Yn ystod y cyfnod cynllunio, fe wnaethom nodi risgiau ychwanegol na ragwelwyd yn wreiddiol. Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn yn ddigonol a sicrhau cywirdeb yr archwiliad, mae angen gweithdrefnau ac adnoddau archwilio ychwanegol. O ganlyniad, bydd hyn yn arwain at gynnydd o 35.8% yn y ffi archwilio o'i gymharu â ffi wirioneddol y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ni chaiff y ffi a godir fod yn fwy na'r gost lawn o gynnal yr archwiliad.

**Amcangyfrif o'ch ffi archwilio 2024-25: £18,620**
**Ffi wirioneddol 2023-24 £13,709**

Bydd cynllunio yn barhaus, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr eu trafod nhw gyda'r Pennaeth Cyllid yn gyntaf.

**Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:**

- Mae'r agweddau i'w cyflawni o'r archwiliad y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac i gynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- [Mae gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol yn cael eu bodloni gan y corff sy'n cael ei archwilio, neu rhoddir trefniadau eraill addas ar waith sy'n diwallu anghenion fy nhîm archwilio.]
- Ni nodir unrhyw faterion o arwyddocâd, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu crynhoi yn y cynllun hwn, yn ystod yr archwiliad.

# Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond byddwn yn archwilio rhywfaint o waith ar y safle pe bai'r cyfle yn codi rhywfaint.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: fy nhîm archwilio lleol**

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@archwilio.cymru |
| **Rheolwr Archwilio** | Yvonne Thomas<br>yvonne.thomas@archwilio.cymru |
| **Uwch Archwiliwr** | Siwan Glyn<br>siwan.glyn@archwilio.cymru |

Mae un bygythiad i annibyniaeth y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio sy'n gyfarwydd ag un o swyddogion y Cyd-bwyllgor. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael ei reoli. Ac eithrio hyn, gallaf gadarnhau bod pob aelod arall o'm tîm yn annibynnol ar y Cyd-bwyllgor.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn llwyr. Rydym o'r farn bod ansawdd archwilio yn golygu cael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Rydym yn gwneud ein gwaith yn destun craffu annibynnol gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae ein Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Os hoffech ragor o wybodaeth, gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.



**Ein Pobl**

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio**
**Dewis y tîm cywir**

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



**Sicrwydd annibynnol**

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cynorthwyo

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o adnoddau i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Ewch i'n gwefan i ddarganfod:

Ein cyhoeddiadau sy'n trafod ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar y gorwel a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data a ffeithluniau i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwario cyhoeddus yn well.

Manylion ein gwaith Arfer Da a digwyddiadau gan gynnwys rhannu arferion a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.